# Bwletin y Farchnad HCC

Mai 2022

> Mae data dosbarthu carcasau a ryddhawyd yn ddiweddar ar gyfer 2021 wedi dangos bod ŵyn a broseswyd mewn lladd-dai ym Mhrydain Fawr yn cynnwys llai o fraster o'u cymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach. Roedd gwartheg dethol ar y llaw arall yn drymach ar y flwyddyn, gyda chyfran uwch o anifeiliaid yn cyrraedd y manylebau targed. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.
>
> **Glesni Phillips – Dadansoddwr Data**



## ŴYN

Mae gwybodaeth a gasglwyd gan dros 116,000 o garcasau ŵyn mewn lladd-dai ym Mhrydain yn ystod 2021 yn rhoi cipolwg ar sut y dosbarthwyd carcasau wedi'u pesgi ar draws grid dosbarthu EUROP yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol, mae'r ffigurau'n dangos bod bron i 59% o'r carcasau ŵyn yn y sampl pwysau marw wedi'u dosbarthu gyda chydffurfiad **R** – cynnydd o 1.4 pwynt canran o'i gymharu â 2020, a chynnydd pellach o 3.9 pwynt canran o'i gymharu â 2019. Mae hyn yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o'r ŵyn a broseswyd gydffurfiad da. Oherwydd cynnydd yn y gyfran a ddosbarthwyd gyda chydffurfiad **R**, roedd cyfran yr ŵyn a gyflawnodd naill ai gydffurfiad **E** neu **U** wedi gostwng o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach a 2019. Roedd pwysau cymedrig yr holl garcasau yn 19.7kg ar gyfer 2021 - sydd i fyny o 19.6kg yn 2020. Byddai hyn yn awgrymu, er bod carcasau'n drymach ar y flwyddyn yn gyffredinol, bod cyfran uwch o ŵyn wedi cyflawni'r targed cydymffurfiad **R**.

Datgelodd yr asesiad rhifol (1-5) ar gyfer braster fod carcasau'n cynnwys llai o fraster ar gyfartaledd o'u cymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach. Cofnodwyd y mwyafrif (52.7%) o ŵyn yn y dosbarth braster **3L** - cynnydd o 2.7 pwynt canran ar y flwyddyn, a chynnydd o 3.1 pwynt canran o'i gymharu â 2019. Cynyddodd cyfran yr ŵyn a gafodd ddosbarthiad llai o fraster o **2** hefyd 2.7 pwynt canran ar y flwyddyn i gyfrif am 19.5% o gyfanswm y trwybwn. O ganlyniad, cyflawnodd bron i 63% o'r ŵyn a broseswyd mewn lladd-dai ym Mhrydain Fawr y graddau targed (h.y. cydffurfiad **E**, **U** neu **R**, a fraster **2** neu **3L**) yn ystod 2021 – cynnydd sylweddol o 57% yn 2020. Roedd cyfran y carcasau a gyflawnodd ddosbarthiad gradd **R3L** yn 31.1% - cynnydd o 2.5 pwynt canran ar lefelau blwyddyn yn gynharach, a chynnydd o 3.6 pwynt canran ar 2019. Byddai'r radd hon fel arfer yn cyflawni pris sylfaenol prosesydd, ac felly mae'n fuddiol gweld cynnydd yn nifer yr ŵyn sy'n cyflawni'r dosbarthiad hwn.

### Canran yr Holl Garcasau Ŵyn yn ôl Dosbarthiadau Braster a Chydffurfiad mewn Lladd-dai ym Mhrydain Fawr, 2019 - 2021

**Dosbarth Cydffurfiad**

| | E | U | R | O | P |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019** | 5.6 | 26.9 | 54.8 | 12.5 | 0.2 |
| **2020** | 4.3 | 25.9 | 57.3 | 12.3 | 0.1 |
| **2021** | 3.3 | 25.7 | 58.7 | 12.0 | 0.2 |

**Dosbarth Braster**

| | 1 | 2 | 3L | 3H | 4L | 4H | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2019** | 0.7 | 14.8 | 49.6 | 27.9 | 6.0 | 0.8 | 0.2 |
| **2020** | 0.8 | 16.8 | 50.0 | 26.8 | 5.0 | 0.5 | 0.1 |
| **2021** | 1.0 | 19.5 | 52.7 | 22.6 | 3.9 | 0.3 | 0.0 |

*Ffynhonnell: AHDB*

## GWARTHEG DETHOL

Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer gwartheg dethol yn 2021 yn seiliedig ar bron i 1.7 miliwn o garcasau o ladd-dai ym Mhrydain Fawr. Mae'r ffigurau'n dangos bod nifer y gwartheg dethol a gyflawnodd gydffurfiad **R** yn ystod y flwyddyn wedi cynyddu 1.5 pwynt canran ar ffigurau 2020 i gyfanswm o 47.8% - sydd hefyd yn gynnydd o 2.6 pwynt canran o gymharu â 2019. Er bod nifer y gwartheg a ddosbarthwyd gyda chydffurfiad **O+** yn debyg i lefelau blwyddyn yn gynharach, roedd y cydffurfiadau **R** ac **O+** gyda'i gilydd yn cyfrif am bron i 73% o gydffurfiad gwartheg dethol am y flwyddyn. Mae hyn yn welliant ar lefelau'r ddwy flwyddyn yn gynharach (cynnydd o 1.6 pwynt canran), ac ar lefelau 2019 (cynnydd o 3.3 pwynt canran).

Yn gyffredinol; bu gostyngiad yng nghyfran y gwartheg gyda llai o fraster a gafodd eu prosesu mewn lladd-dai ym Mhrydain yn 2021, gyda chynnydd yn nifer y gwartheg sy'n ennill graddau dosbarth braster **4L**, **4H** a **5L** o gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach. Roedd prisiau gât y fferm ar gyfer gwartheg dethol yn gryf yn ystod 2021, a allai fod wedi annog cynhyrchwyr i gyflawni pwysau trymach. Mae cyfran gynyddol o wartheg dethol wedi bod yn cyflawni'r graddau targed o **R3** neu **R4L** yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2021, cyflawnodd 38% o wartheg y graddau targed hyn - cynnydd o 1.1 pwynt canran ar y flwyddyn, a 2.3 pwynt canran yn uwch nag yn 2019. Byddai'r dosbarthiadau hyn fel arfer yn cyflawni pris sylfaenol cyfartalog prosesydd Prydain Fawr, ac felly mae hyn yn newyddion cadarnhaol i'r sector cig eidion.




Dylid ystyried bodloni manylebau cwsmeriaid a'r farchnad fel y nod ar gyfer cynhyrchwyr cig oen a chig eidion – yn enwedig yn ystod cyfnod lle mae costau mewnbwn ffermydd yn profi cynnydd sylweddol a fydd yn anochel yn effeithio ar elw cynhyrchwyr. Mae'r manylebau hyn yn cael eu sefydlu drwy ddeall gofynion cwsmeriaid tra'n ceisio sicrhau effeithlonrwydd cynhyrchu a phrosesu. Bydd unrhyw garcasau (cig oen neu gig eidion) a gynhyrchir y tu allan i'r manylebau hyn yn arwain yn ddieithriad at gosbau a chostau uwch i'r rhai yn y gadwyn gyflenwi.

*Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar arolwg sampl a gynhaliwyd mewn lladd-dai ledled Prydain sy'n dosbarthu carcasau yn ôl grid dosbarthu EUROP. Data o AHDB.*

**GWARTHEG** **Prisiau – wythnos yn gorffen 21 Mai**

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **237.1c/kg.** Roedd hyn:

- -4.3c ar yr wythnos flaenorol,
- +21c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 43c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 194.1c/kg).

Y pris pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **437.9c/kg.** Roedd hyn:

- -0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- +46c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 437.8c/kg (+0.8c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 430.8c/kg (+2.4c), a gwartheg difa ar 357.6c/kg (+0.5c).

**Trwybwn – Ebrill 2022**

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 219,400 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 163,500 pen - i fyny 1% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -1%, heffrod +3%, a theirw ifanc 0%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 349.1kg (+0.8kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 48,700 pen - cynnydd o 3% ar y flwyddyn.







**DEFAID** **Prisiau – wythnos yn gorffen 21 Mai**

Pris pwysau byw cyfartalog Ŵyn Tymor Newydd (SQQ) mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **330.0c/kg.**

Roedd hyn:

- -6.3c ar yr wythnos flaenorol,
- +10c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 66c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 264.0c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£103.20/pen**. Roedd hyn:

- +£5.40 ar yr wythnos flaenorol,
- +£19.80 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 672.0c/kg (+66.9c ar yr wythnos).

**Trwybwn - Ebrill 2022**

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 21% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn dethol = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 22% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasau ŵyn = 21.1kg (+0.4kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 99,600 pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.







**MOCH** **Prisiau – wythnos yn gorffen 14 Mai**

Roedd Pris Holl Foch Prydain (APP) yn **180.4c/kg**. Roedd hyn:

- +0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- +27c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- Dros 24c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 156.5c/kg).

Mae adroddiadau'r diwydiant yn awgrymu nad yw'r gwelliant enfawr a welwyd ym mhrisiau gât y fferm yn ddigon i dalu am gost cynhyrchu cyfredol. Mae ffigurau trwybwn Defra ar gyfer mis Ebrill yn dangos bod moch trymach yn dal i gael eu prosesu o ganlyniad i lawer ohonynt ar y fferm am fwy o amser na'r disgwyl.

**Trwybwn - Ebrill 2022**

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 945,200 pen – gostyngiad o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 921,700 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 90.9kg (+3.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn hwch a baedd = 23,500 pen – cynnydd o 18% ar y flwyddyn.




